

Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council

8ed Ebrill 2024 / 8th April 2024

Festri Tabernacle Vestry, Pencader

Is-Bwyllgor Cyllid / Finance Sub-Committee

7.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, D. Davies, H. Lewis, R. Thomas. A. Evans (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies: A. Davies

<p>1. Cofnodion Cyfarfod 11eg Ionawr – Derbyniwyd fel cofnodion cywir yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15ed Ionawr, 2024. Cynigiwyd: A. Davies; Eiliwyd: R. Thomas (15.01.2024)</p>	<p>1. Minutes of Meeting held 12th October – Accepted as an accurate record at Full Council Meeting held on 15th January, 2024. Proposed: A. Davies; Seconded: R. Thomas (15.01.2024)</p>
<p>2. Materion yn Codi – Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oes eisoes wedi eu trafod yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15eg Ionawr, 2024.</p>	<p>2. Matters Arising – There were no matters arising which had not been discussed at the meeting of the full Council on 15th January, 2024.</p>
<p>3. Derbyn a thrafod y Fantolen Ariannol hyd at 31ain Mawrth, 2024 - Roedd H. Lewis wedi paratoi'r fantolen ariannol hyd at 31ain Mawrth 2024, h.y. adroddiad hyd at diwedd y flwyddyn ariannol 2023-24. Trafodwyd yr adroddiad a nodwyd gwerthfawrogiad pawb am yr holl waith manwl a gyflwynwyd. Cyfanswm y gwariant hyd at 31.03.2024 = £45825.57 (y precept am y flwyddyn yn £45000). Nodwyd bod yna gostau ychwanegol i feysydd megis staffio, goleuadau stryd Newydd, atgyweirio'r cof-golofn, hyfforddiant, yn ogystal â ffioedd awdit a chyfrifydd. Nodwyd hefyd y tanwariant mewn meysydd e.e. yswiriant, gwasanaethau cyfieithu, cynnal a chadw cyffredinol, y cornel chwarae.</p>	<p>3. To receive and discuss the Financial Statement up to 31st March, 2024 – H. Lewis had prepared the financial statement up to 31st March 2024, i.e. the report to the end of the financial year 2023-24. This was discussed and all present wished to note their appreciation of the detail presented. Expenditure to 31.03.2024 = £45825.57, the precept for the year being £45000. Additional costs included staffing, replacement of streetlights, repairs to war-memorial, training, as well as audit and accountancy fees. An underspend in other categories was also noted, e.g. insurance, translation services, general repair and maintenance, play area.</p>
<p>4. Precept 2024/25 – Nid oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn ers i'r Cyngor ofyn am Precept o £53000 ar gyfer y flwyddyn 2024/25.</p>	<p>4. Precept 2024/25 – No further information had been received following the Council's request for £53000 for the year 2024/25.</p>
<p>5. Asesiad Risg Ariannol – Adolygwyd a derbyniwyd. Cynigiwyd – D. Davies; Eiliwyd – H. Lewis. Nodwyd yr angen am Bolisi Incwm a Strategaeth Buddsoddi. Hefyd, bod angen adolygu costau'r fynwent.</p>	<p>5. Financial Risk Assessment – Reviewed and adopted. Proposed – D. Davies; Seconded – H. Lewis. It was noted that an Investment Strategy and Income Policy were required. Burial fees also need to be reviewed.</p>
<p>6. Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol – Derbyniwyd y ddogfen hon oddi wrth Un Llais Cymru ar 21.03.2024. Penderfynwyd ei mabwysiadu. Cynigiwyd – H. Lewis; Eiliwyd – R. Thomas.</p>	<p>6. Annual Financial Timetable of Actions - This document had been received from One Voice Wales on 21.03.2024 and was adopted. Proposed – H. Lewis; Seconded – R. Thomas.</p>

<p>7. Newid y Cyfrif Banc – Adroddwyd gan y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiadau pellach hyd yn hyn. Gan bod y mater yma wedi bod ar waith ers nifer o fisoedd, gofynnwyd i ymholiadau pellach gael eu gwneud.</p>	<p>7. Transfer of Bank Account - The Clerk reported that no further progress had been made to date. As this matter has been ongoing for a number of months, it was requested that the matter be pursued.</p>
<p>8. Cyfrifydd – Nodwyd bydd angen i'r "Llythyr Ymrwymo Ymchwilydd Mewnol" gael ei anfon i'r cyfrifydd cyn gynted â phosib gan bod angen cael dogfennaeth Audit yn barod yn fuan.</p>	<p>8. Accountant – It was noted that the "Letter of Engagement of Internal Auditor" would need to be sent to the accountant as soon as possible as Audit documents will soon be due to be completed.</p>
<p>9. Audit 2023-24 – Nodwyd bod yr holl ddogfennaeth ar gyfer Audit 2023-24 wedi ei dderbyn ar 18.03.2024 a bod angen dechrau ar y gwaith angenrheidiol cyn gynted â phosib.</p>	<p>9. Audit 2023-24 - It was noted that all documentation for Audit 2023-24 had been received on 18.03.2024 and work to complete the required information should commence as soon as possible.</p>
<p>10. Unrhyw Fusnes Arall – Roedd D. Davies wedi gwneud ymholiadau ynglyn â chael prisiau ar gyfer prynu teclyn "Meeting Owl Pro" er mwyn hwyluso cyfarfodydd hybrid ac, yn Dilyn ymholiadau gan M Griffiths gyda Chyngor Tref Caerfyrddin, bydd yn gwneud trefniadau i ymweld er mwyn cael rhagor o wybodaeth.</p>	<p>10. Any Other Business – D. Davies had enquired re: quotations for purchasing "Meeting Owl Pro" to facilitate hybrid meetings and, following initial enquiries made by M. Griffiths with Carmarthen Town Council, will make arrangements to visit for further information.</p>
<p>11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Dyddiad i'w gytuno ar gyfer Mis Gorffennaf 2024 cyn dyddiad cyfarfod llawn y Cyngor.</p>	<p>11. Date of Next Meeting – Date to be agreed for meeting to be held during July 2024 on a date prior to the meeting of the full Council.</p>

Gorffenwyd / Ended: 8.55 y.h. / p.m.
